# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts – Cadeirydd<br>Y Cynghorydd W.T. Hughes - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.J. Chorlton, E.G. Davies, Lewis Davies, Richard A. Dew, Jim Evans, Kenneth Hughes, R.L. Owen, Eric Roberts, Hefin W. Thomas. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ),<br>Cymhorthydd Cynllunio (AH),<br>Cymhorthydd Cynllunio.<br><br>Uwch Beiriannydd (Rheoli Datblygu) (EJ),<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd Clive McGregor. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Aelodau Lleol : Y Cynghorwyr A.M. Jones (ar gyfer cais 7.1);<br>Eric Jones (ar gyfer cais 12.4) |

---

Roedd yr Aelodau'n bryderus bod dwy sedd wag ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod y mater gyda'r Deilydd Portffolio Cynllunio.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ymddiheuriadau fel a nodir uchod.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd y datganiadau o ddiddordeb a'u cofnodi dan yr eitemau perthnasol.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gafwyd ar 6 Mehefin, 2012.

**4. YMWELIADAU SAFLE**

Cadarnhawyd cofnodion yr Ymweliadau Safle a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2012 fel rhai cywir.

**5. SIARAD CYHOEDDUS**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai aelodau o'r cyhoedd yn siarad ar gais 7.1 a 12.4 ar y rhaglen.

**6. CEISIADAU A OHIRIWYD**

**6.1 39C291A/1 – Codi bloc o fflatiau yn cynnwys 6 o fflatiau 2 ystafell wely ar dir yn Menai Quays, Stryd Paced, Porthaethwy**

Adroddwyd bod y safle yn gyfagos i Warws John Edwards sy'n adeilad rhestredig a Gwesty'r Fictoria a'i fod yn yr ardal gadwraeth ddynodedig. Teimlwyd y dylai'r Aelodau ymweld â'r

Draft

datblygiad arfaethedig yn y cyd-destun hwn yn unol â’r gofynion statudol er mwyn rhoi sylw arbennig i fuddioldeb cadw gosodiad yr adeiladau rhestredig a rhoi sylw arbennig i fuddioldeb cadw neu wella cymeriad neu edrychiad yr ardal gadwraeth.

**PENDERFYNWYD ymweld â’r safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**EITEM YCHWANEGOL - GYDA CHANIATÂD Y CADEIRYDD**

**6.2 14C42J - Cais llawn i godi adeilad trin dŵr, tewychu llaid, tanc dal, adeiladu ffordd fynedfa i’r safle, codi ffens ddiogelwch a gwaith tirlunio cysylltiedig yng Ngwaith Trin Dwr Cefni, Bodffordd**

Cytunodd y Cadeirydd i gael yr eitem ganlynol fel ychwanegiad brys ar y Rhaglen oherwydd y cyfnod amser gyda gwneud penderfyniad ar y cais ac oherwydd nad oes Pwyllgor Cynllunio i’w gynnal ym mis Awst.

Adroddwyd bod y cynnig yn cynnwys codi offer ac adeiladau yr oedd eu hangen i wella’r broses trin dŵr er mwyn cyfarfod â’r safonau presennol. Teimlwyd y byddai angen i’r Aelodau weld y datblygiad arfaethedig yn ei gyd-destun.

**PENDERFYNWYD ymweld â’r safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**7. CEISIADAU’N CODI**

**7.1 24C192D - Codi twrbin wynt gydag uchder hwb hyd at uchafswm o 15m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 7.5m ac uchder llafn unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 19m ar dir yn Rhiwlas, Nebo, Penysarn**

Cyflwynwyd y cais i’r Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol gan fod pryderon ynglŷn â’r effaith ar yr amgylchedd a hefyd am ddyluniad y tyrbin.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Miss Mairede Thomas i annerch y cyfarfod i wrthwynebu’r cais.
Y prif faterion a godwyd gan Miss Thomas oedd:-

- Mae'r safle ar dir uchel sydd tua 125 metr uwchben lefel y môr ac sydd oddi ar ffordd gul sy’n anodd mynd ar ei hyd sy'n rhedeg o Penysarn i Nebo ac sydd ond 250 metr o’r AHNE;
- Mae yna nifer o eiddo o fewn 500 metr, yn cynnwys Bwthyn Rhestredig Graddfa II sydd 300 metr i ffwrdd ac mae’r tŷ agosaf o fewn 180 metr;
- Mae'r tyrbin gwynt arfaethedig ddwy ran o dair o faint y tyrbinau yn y fferm wynt yn Rhos-y-bol;
- Nid yw'r tyrbin o faint microgynhyrchu; pe bai o dan 11 metr o uchder i flaen y llafn, gallai gael ei osod o dan orchymyn datblygiad a ganiateir a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru sy’n galluogi ac yn annog microgynhyrchu;
- Nid oes gan dyrbinau maint microgynhyrchu hawliau datblygu a ganiateir yn yr AHNE, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a sefyllfaoedd eraill lle y byddent yn niweidio amgylchedd hanesyddol, neu lle byddent yn rhy agos at eiddo cyfagos;
- Nid yw’r ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth fel oedd yn ofynnol gan y Cyngor ac ni chafwyd unrhyw ymgysylltiad cymunedol;
- Mae'r safle yn rhy sensitif yn y dirwedd i gael tyrbin sy’n fwy na thyrbin o faint microgynhyrchu. Y mae hefyd yn rhy agos i dai ar gyfer tyrbin sy’n fwy na fyddai’n cael ei ganiatáu gan y gorchymyn statudol newydd ddaeth i rym ar 18 Mehefin 2012.
- Mae'r cais yn tynnu’n groes i Gynllun Lleol Ynys Môn 1996 a bydd yn cael effaith sylweddol ac annerbyniol ar gymeriad y dirwedd ac ar safon y mwynderau a fwynheir gan y trigolion a hefyd gan dwristiaid.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr John Lumsden siarad gerbron y cyfarfod ar ran yr ymgeisydd.

Draft

Y prif faterion a godwyd gan Mr Lumsden oedd: -

- Mae'r Llywodraeth yn bwriadu dod o hyd i ateb ar gyfer lleihau'r troedbrint $CO^2$ trwy annog ynni amgen. Mae'r Llywodraeth wedi dweud y dylid annog unrhyw un sydd â thir ac sydd yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio ac sy'n barod i fuddsoddi mewn ynni gwyrdd;
- Mae gan yr ymgeiswyr fythynnod gwyliau ar y safle lle y bwriedir gosod y tyrbin ac maent yn bwriadu i'r ynni a gynhyrchir gynyddu effeithlonrwydd y gwres yn yr anheddau hynny;
- Mae'r ymgyrch yn erbyn tyrbinau gwynt ar yr Ynys i'w weld fel pe bai wedi symud ar hyn o bryd tuag at gael dim tyrbinau gwynt mewn unrhyw leoliad ar yr Ynys. Nid yw hyn yn beth da i'r Ynys gan ei bod wedi datgan ei hun fel Ynys Ynni;
- Mae'r ymgeisydd yn ystyried ei fod wedi cydymffurfio gyda'r rheoliadau statudol ynglŷn ag ymgynghori gydag eiddo cyfagos. Mae'r ymgeisydd wedi symud lleoliad y tyrbin mewn ymateb i bryderon cymdogion a hynny ar ddechrau'r cais hwn;

Holodd yr Aelodau Mr Lumsden i gael gwybod a fyddai'r ymgeisydd yn ystyried symud lleoliad y tyrbin gwynt i fod yn nes at y fferm sydd ym mherchnogaeth yr ymgeisydd. Dywedodd Mr Lumsden bod yr ymgeisydd yn agored i awgrymiadau gan y Cyngor ynglŷn â lleoliad posibl y tyrbin gwynt. Fodd bynnag, rhaid cael cydbwysedd ynglŷn â lle y mae'r gwynt ar ei gryfaf a byddai symud y tyrbin yn nes at fferm yr ymgeisydd yn golygu symud y tyrbin yn is i lawr y bryn. Awgrymir cael tyrbin byrrach yn awr yn y lleoliad ar ben y bryn.

Dywedodd yr Aelod Lleol y dylid bod wedi cwblhau'r ymarfer ymgysylltiad cymunedol cyn i gais gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Mae uchder y tyrbin gwynt arfaethedig yn broblem yn yr ardal ynghyd â phryderon bod Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac adeilad rhestredig yn agos i'r safle. Roedd yr Aelod Lleol am gwestiynu hefyd a ystyriwyd y mater o 'gysgod-gryniant' gan y Swyddogion Cynllunio. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y materion a godwyd gan yr Aelod Lleol wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog Cynllunio i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd W.J. Chorlton y byddai'n cefnogi'r cais pe bai lleoliad y tyrbin gwynt yn cael ei symud i fod yn nes at y fferm sydd ym mherchnogaeth yr ymgeisydd. Dywedodd bod maint y tyrbin gwynt arfaethedig yn bryder; roedd Ynys Môn yn dibynnu ar Dwristiaeth a byddai uchder eithriadol y tyrbin hwn i'w weld am filltiroedd.

Dywedodd y Cynghorydd K.P. Hughes fod ganddo wahaniaeth barn ynglŷn â lleoliad y tyrbin. Nododd bod yn rhaid lleoli'r tyrbinau gwynt hyn fel eu bod yn cael y fantais fwyaf o ffynhonnell y gwynt. Cynigiodd y Cynghorydd Hughes bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliodd y Cynghorydd W.T. Hughes y cynnig.

Roedd y bleidlais fel a ganlyn :-

Cymeradwyo'r cais, yn unol ag argymhelliad y Swyddog : Y Cynghorwyr Jim Evans, K.P. Hughes, W.T. Hughes, J. Arwel Roberts. **Cyfanswm 4**

Gwrthod y cais, yn groes i argymhelliad y Swyddog : Y Cynghorwyr W.J. Chorlton, E.G. Davies, R.A. Dew, R.L. Owen, Eric Roberts. **Cyfanswm 5**

Y rhesymau a roddwyd dros wrthod y cais oedd bod yr Aelodau'n credu y byddai'r cais yn cael effaith weledol ar y dirwedd.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.**

**Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig i'r cyfarfod nesaf fel bod modd rhoi cyfle i'r Swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau dros wrthod y cais.**

***(Ni chymerodd y Cynghorydd H.W. Thomas ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y cais hwn gan nad oedd wedi bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle).***

Draft

**7.2 Codi uned wyliau newydd yn Bryn Awelon, Llanallgo**

Cyfeiriwyd y cais i'r Pwyllgor i'w benderfynu yn wreiddiol yn ei gyfarfod ar 4 Ebrill 2012 a hynny ar ofyn yr Aelodau Lleol. Ymwelodd yr Aelodau â'r safle ar 16 Mai 2012.

Nodwyd bod y cais wedi cael ei gymeradwyo yn groes i argymhelliad y Swyddog yn y cyfarfod diwethaf. Y rhesymau dros ganiatáu'r cais oedd bod y cynnig yn cydymffurfio â Pholisi 8 CH2 yng Nghynllun Fframwaith Gwynedd. Nodwyd ar ôl y cyfnod 'amser i feddwl' bod y Swyddog Cynllunio'n dal i ystyried y dylid gwrthod y cais. Cynigiodd y Cynghorydd H.W. Thomas y dylid ail-gadarnhau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Eiliodd y Cynghorydd Eric Roberts y cynnig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.**

***(Ni chymerodd y Cynghorwyr W.J. Chorlton a Richard A. Dew ran yn y drafodaeth nac yn y pleidleisio ar y cais hwn gan nad oeddent wedi bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle).***

**7.3 41C103M – Cais llawn ar gyfer codi mast anemomedr 40.5m o uchder dros dro ar dir Ty Gwyn, Penmynydd**

Eglurodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio i'r cais hwn gael ei ohirio yn y cyfarfod diwethaf gan nad oedd adroddiad y Swyddog mewn ymateb i'r Pwyllgor yn gwrthod y cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog yn ei gyfarfod ar 2 Mai yn delio gyda'r pryderon ynglŷn â'r effaith ar dwristiaeth ond yn hytrach gyda mater yr effaith weledol yn unig. Dywedodd y Swyddog bod yr ymgeisydd wedi nodi y byddai'n apelio yn erbyn unrhyw rybudd gwrthod fyddai'n cael ei ryddhau.

Mynegodd y Cynghorydd Eric Jones, yr Aelod Lleol ei fod yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn ail-gadarnhau ei benderfyniad i wrthod y cais hwn oherwydd y gwrthwynebiad cryf yn lleol i'r cais hwn. Cynigiodd y Cynghorydd H.W. Thomas y dylid ail-gadarnhau'r penderfyniad i wrthod y cais. Eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r penderfyniad i wrthod y cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog.**

***(Ni chymerodd y Cynghorydd W.J. Chorlton a Richard A. Dew ran yn y drafodaeth nac yn y pleidleisio ar y cais hwn gan nad oeddent wedi bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle).***

**8. CEISIADAU ECONOMAIDD**

Nid oedd dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

**9. CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY**

Nid oedd dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

**10. CEISIADAU'N TYNNU'N GROES I BOLISI**

Nid oedd dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

**11. CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION**

Nid oedd dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

Draft

## 12. GWEDDILL Y CEISIADAU

**12.1 16C48G – Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn Ger y Bryn, Bryngwran**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor i'w ystyried ar oherwydd bod yr Aelod Lleol wedi gofyn am hynny.

Nodwyd bod gwybodaeth ychwanegol wedi ei chyflwyno gan yr ymgeisydd ac felly bydd y Swyddogion angen amser i asesu'r wybodaeth ychwanegol hon.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais am y rhesymau a roddwyd.**

**12.2 19LPA959/CC – Cais llawn ar gyfer lleoli dosbarth symudol yn Ysgol Gynradd Morswyn, Ffordd Cytir, Caergybi**

*Datganodd y Cynghorydd W.J. Chorlton ddiddordeb yn y cais hwn ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio arno.*

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor i'w ystyried oherwydd ei fod yn cael ei gyflwyno gan ac ar ran y Cyngor ar dir y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin W. Thomas bod y cais yn cael ei gymeradwyo ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd K.P. Hughes.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad ac argymhelliad y Swyddog o ganiatáu, gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

**12.3 34LPA164F/CC – Dymchwel y dosbarth symudol presennol ynghyd â chodi dosbarth symudol newydd yn ei lle yn Ysgol Corn Hir, Llangefni**

*Datganodd y Cynghorydd Richard A. Dew ddiddordeb yn y cais hwn ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio arno.*

Roedd y cais wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried gan ei fod yn gais gan yr Awdurdod Lleol.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd E.G. Davies.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad ac argymhelliad y Swyddog o ganiatáu, gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

**12.4 41C125C – Cais llawn ar gyfer gosod anemomedr 60m o uchder am gyfnod dros- ro ar dir yn Bryn Eryr Uchaf, ger Pentraeth**

Roedd y cais hwn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried ar ofyn yr Aelod Lleol. Cais ydoedd i godi mast anemomedr 60 metr o uchder am gyfnod dros dro o 3 blynedd.

Gwahoddodd y Cadeirydd Mr John Emrys Williams i annerch y cyfarfod i wrthwynebu'r cais. Y prif faterion a godwyd gan Mr Williams oedd: -

- Roedd pobl nad ydynt yn byw yma wedi cymryd y cyfle i geisio datblygu'r ardal er eu budd eu hunain. Maent yn gwneud hynny heb roi unrhyw sylw i'r gymuned ac mewn ffyrdd sy'n torri'r rheolau cynllunio.
- Nid yw'r ymgeisydd wedi gwneud unrhyw ymdrech i ymgynghori gyda'r gymuned;
- Nid yw'r cais yn nodi unrhyw ardaloedd sy'n amgylcheddol sensitif, sef gwlyb-diroedd. Ni fyddai unrhyw ymgynghorydd trydydd parti a fyddai'n edrych ar y cais hwn yn cael darlun cywir o'r safle;

Draft

- Nid yw'r ymgeisydd yn cynnwys yr holl fanylion sydd eu hangen, ac yn groes i gais y swyddog, oherwydd nid yw'n cynnwys unrhyw Asesiad o'r Effaith Weledol ar y Dirwedd. Byddai'r cais hwn yn cael ei daflu allan gan y llysoedd;
- Byddai strwythur fertigol mawr fyddai yn 200 troedfedd o uchder yn cael effaith niweidiol sylweddol ar fwynderau'r ardal. Mae wedi'i leoli yn un o'r tirweddau twristaidd mwyaf pwysig ar yr Ynys. Gan fod y cais yn un am 3 blynedd, byddai'r niwed a wneid i dwristiaeth yn y blynyddoedd hynny yn sylweddol. Byddai twristiaid yn gweld y mast hwn ac yn anffodus, byddent yn chwilio am gyrchfannau gwyliau eraill;
- Bwriedir cael anemomedrau eraill yn yr ardal. Fe ddylai'r Cyngor wneud ei orau glas i ddiogelu'r mwynderau sy'n weddill ar yr Ynys rhag eu difrodi ymhellach;
- Mae pobl yn gwybod bod y mastiau hyn yn cael eu rhoi i fyny fel rhan o'r broses gynllunio ar gyfer cael tyrbinau gwynt.

Nid oedd unrhyw gwestiynau i Mr Williams gan Aelodau'r Pwyllgor.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr Jonathan Cawley siarad gerbron y cyfarfod ar ran Cwmni West Coast Energy Cyf yn cynrychioli'r ymgeisydd. Y prif faterion a leisiwyd gan Mr Cawley oedd: -

- Bwriad yr anemomedr yw canfod a yw'r lleoliad yn briodol ai peidio;
- Roedd o'r farn na fyddai'r anemomedr ond yn creu'r anghyfleuster lleiaf yn yr ardal yn ystod ei osod gan nad oes unrhyw ffordd na thrac i'r safle;
- Roedd yn ystyried na fyddai'r effaith weledol ar y dirwedd ond yn fychan iawn ac na fyddai unrhyw niwsans sŵn yn cael ei greu gan y mast;

Cwestiynodd yr Aelodau paham y byddai'r anemomedr wedi ei leoli ar y safle am 3 blynedd. Dywedodd Mr Cawley bod y cais yn un am 3 blynedd ond efallai na fyddai angen i'r anemomedr fod yno ond am gyfnod llai. Holodd yr Aelodau beth fyddai cyfanswm cost codi anemomedr o'r fath. Dywedodd Cawley nad oedd yr union ffigyrau ganddo i'w rhoi i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Eric Jones, yr Aelod Lleol, i gyfarfod gael ei alw yn ardal Penmynydd yn ddiweddar i wrthwynebu'r cais hwn; roedd nifer fawr o bobl wedi mynychu'r cyfarfod. Nododd bod yna wrthwynebiad cryf yn yr ardal i godi anemomedr yn yr ardal.

Dywedodd y Cynghorydd H.W. Thomas y dylid gwrando ar lais a barn y gymuned leol. Dywedodd bod yr anemomedr hwn yn 60m o uchder sydd yn uchder anferthol. Byddai mast o'r math hwn yn yr ardal i'w weld am filltiroedd, byddai'n beth hollol ddieithr yn yr ardal a byddai'n cael effaith andwyol ar y gymuned.

Dywedodd y Cynghorydd K.P. Hughes bod angen gwrando ar bryderon y gymuned leol ond bod yn rhaid hefyd glynu wrth bolisïau cynllunio.

Cynigiodd y Cynghorydd H.W. Thomas bod y cais yn cael ei wrthod a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog. Eiliodd y Cynghorydd W.J. Chorlton y cynnig.

Roedd y pleidleisio fel a ganlyn :-

Gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog: Cynghorwyr W.J. Chorlton, E.G. Davies, R.A. Dew, Jim Evans, R.L. Owen, Eric Roberts, Hefin W. Thomas.

**Cyfanswm 7**

Y rhesymau a roddwyd dros wrthod y cais oedd bod yr Aelodau'n credu y byddai'r cais yn cael effaith weledol ar y dirwedd, ac ar yr amgylchedd, a hefyd oherwydd maint y cynnig.

Draft

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog.**

**Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, roedd y cais yn cael ei ohirio'n awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn caniatáu amser i'r Swyddogion baratoi adroddiad ynglŷn â'r rhesymau a roddwyd dros wrthod y cais.**

**12.5 41LPA916E/CC – Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid yn Gwyndy, Penmynydd**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor ei ystyried oherwydd ei fod wedi cael ei gyflwyno gan y Cyngor ar dir y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd R.L. Owen bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad ac argymhelliad y Swyddog o ganiatáu, gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

**13. MATERION ERAILL**

**13.1 44C290A - Codi 2 dwrbin gwynt gydag uchder hwb hyd at uchafswm o 29.6m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 20m ac uchder unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 39.6 ar dir yn Bodneithior, Llandyfrydog**

Nodwyd bod cyfarfod mis Mai o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion wedi penderfynu dirprwyo pŵer i Swyddogion ganiatáu'r cais uchod. Roedd yr adroddiad i gyfarfod mis Mai fodd bynnag yn dweud y gellid delio â'r ffordd y bwriedir danfon y pethau i'r safle trwy osod amod cynllunio yn gofyn am gynllun rheoli traffig. Y manylion yr oeddid yn disgwyl amdanynt ac a hysbysebwyd fel gwybodaeth ychwanegol oedd asesiad mwynderau preswyl arall. Roedd gwrthwynebydd i'r cais cynllunio wedi nodi'r mater hwn ac roedd y mater yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor er mwyn cael eglurhad ac i gadarnhau bod yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried y gellir delio gyda'r ffordd o ddanfon nwyddau i'r safle yn yr achos hwn trwy osod amod cynllunio.

Wrth hysbysebu'r wybodaeth ychwanegol, fe dderbyniwyd nifer o wrthwynebiadau'n lleisio materion oedd wedi cael eu cyfeirio i Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir am gyngor. Roedd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn am estyniad yn yr amser yn y lle cyntaf hyd 4 Gorffennaf 2012 er mwyn gallu delio gyda'r gwrthwynebiadau hyn ond roedd yr ymgeiswyr wedi penderfynu cyflwyno apêl am fethu â gwneud penderfyniad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Draft

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**